# Yr her:

Wel, mae cyfnod y Nadolig wedi cyrraedd unwaith eto. Yn dilyn flwyddyn od iawn, mae'n amser dathlu'n ddiogel gyda'r teulu. Mwynhewch y cyfnod yma a gobeithiwn fyddwch yn mwynhau cwblhau'r gweithgareddau a osodwyd i chi dros y dyddiau nesaf.



## Pwyntiau trafod i rieni:

- Beth ydych yn mwynhau yn ystod cyfnod y Nadolig?
- Pwy ydych yn treulio'r cyfnod yma gyda?
- Sut ydych yn teimlo yn ystod cyfnod y Nadolig?
- Beth yw eich uchafbwyntiau?
- Beth ydych wedi gweld eisiau fwyaf y flwyddyn yma?
- Beth ydych wedi mwynhau yn ystod eich tymor cyntaf yn eich dosbarth newydd?

# Nadolig (Meithrin/Derbyn)

## Rhaid gwneud...

| | | |
|---|---|---|
| • Adnabod llythrennau wyddor<br>• Ymarfer ffurfio llythrennau'r wyddor<br>• Ymarfer ffurfio enw/cyfenw<br>• Darllen yn reolaidd– darllen a gwrando ar storïau Ymarfer canu caneuon / hwiangerddi | • Ymarfer adnabod rhifau<br>• Ymarfer ffurfio rhifau<br>• Adrodd rhifau yn eu trefn – ymlaen ac yn ôl<br>• Adio a thynnu ymarferol | • Joe Wicks - sesiynau ar 'You Tube' (Cofiwch ofyn am ganiatad rhieni i fynd ar 'YouTube')<br>• Cosmic Kids Yoga – sesiynau ar 'YouTube'<br>• Sgwrsio gyda'ch rhieni am eich diwrnod a sut rydych yn teimlo.<br>• Beth am helpu o amgylch y tŷ? e.e. gwneud eich gwely, gosod y bwrdd, helpu yn yr ardd, addurno'r tŷ ayyb. |

## Dylech wneud...

| Llythrennedd | Rhifedd | Thema |
|---|---|---|
| Allwch chi greu rhestr Nadolig? Beth am dorri allan lluniau teganau o gatalog neu greu lluniau eich hunain? Ydych chi'n gallu ysgrifennu/copio enwau'r teganau hoffech chi gael? Beth am bostio'ch llythyr at Santa? | Allwch chi ddefnyddio teganau/ blociau/ ffrwythau/ dail/ cerrig i greu setiau amrywiol? Sawl peth sydd gyda chi ymhob set? Ydych chi'n gallu ysgrifennu'r rhif sy'n cyfateb a phob set ar bapur/cerdyn? Ewch ati i drefnu'r setiau o'r lleiaf i'r mwyaf. | Beth am aros yn ffit dros gyfnod y Nadolig? Gwnewch y gylched ymarfer corff yma gydag aelodau o'ch teulu. 5/10 naid seren...neidiwch 5/10 gwaith fel Rwdolff, rholiwch fel cracer Nadolig, cydbwyswch ar un goes am 5/10 eiliad. Beth am amseri eich gilydd? Pwy wnaeth gwblhau'r cwrs y gyflymaf? |
| Ydych chi'n gallu darlunio llun o Santa neu Mair a Joseff? Beth am ysgrifennu/copio geiriau/brawddeg i ddisgrifio'ch llun e.e Dyma Mair a Joseff/ Santa/ Seren. Trafodwch eich llun gydag aelod o'r teulu. | Ewch ati i gasglu data gydag oedolyn am ba addurniadau Nadolig welwch ar eich stryd / yn eich pentref e.e coeden Nadolig, seren Nadolig, Sion Corn, dyn eira, Rwdolff ayyb. | Ewch ati i beintio llun o Siôn Corn i arddangos yn y tŷ. Ydych chi'n cofio pa liw yw ei ddillad/ esgidiau/welis/barf/sach teganau? Cofiwch ddefnyddio'r lliwiau cywir! Gofynnwch am help oedolyn i ddod o hyd i gân Nadolig ar Cyw. Beth am berfformio'r gân gyda'ch gilydd. |
| Beth am fynd a'r helfa llythrennau? Faint o bethau allwch chi ddarganfod yn y tŷ/yr ardd sy'n dechrau gyda'r llythrennau m, a, c, p, t, d, i, n, o, l? Allwch chi ffurfio'r rhai o'r llythrennau yma gan ddefnyddio dail, brigau, cerrig/paent ayyb. | Ydych chi'n gallu creu coeden Nadolig siâp triongl allan o ddeunyddiau naturiol o'r ardd? Beth am ddefnyddio brigau i greu trionglau? Ydych chi'n gallu creu seren i eistedd ar ben y goeden? Pa siapiau eraill allwch chi ddargangod yn yr ardd neu o gwmpas y tŷ? | Gydag oedolyn, ewch ati i goginio / addurno bisgedi Nadolig. Ar ôl coginio / addurno, beth am dynnu llun o chi'n mwynhau ei bwyta – rhannwch rhain gyda ni ar HWB. |

## Gallaf wneud...

| | | |
|---|---|---|
| Heriau LEGO<br>Calendr Caredigrwydd<br>Llyfrau sain David Walliams<br>Newsround – darllen y newyddion diweddaraf<br>Science Investigations – STEM website stemsational.com | Minecraft<br>Cymuned y Sgarlets– Sgiliau Mathemateg<br>Carol Vorderman – 'My Maths School'<br>Cip ar Fathemateg<br>SGILIAU – gemau i'w chwarae adref/clwb ysgol ar Facebook<br>Orielodl – fideo cam wrth gam | Dawnsio gyda Oti Mabuse<br>PBSkids.org - Gemau Darllen i blant<br>BBC Bitesize<br>Hour of Code<br>Gwefan TopMarks Mathemateg<br>Gwefan MathsFrame Mathemateg |

| | | |
|---|---|---|
| Adnoddau twinkl–Mynychwch y wefan am ddim | Llifo'n Llawen – Yoga | mathsalamanders.com |
| www.twinkl.co.uk/offer yn defnyddio côd | Just Dance – 'Youtube' | Traed Bach Sionc (Busy Feet) – Youtube |
| UKTWINKLHELPS | Amser Stori Atebol – 'You Tube | Llyfrau Coeden Darllen Rydychen -HWB |
| Zumba Kids | Amser stori gyda Sion Corn – Llyfrgelloedd Sir Gaer | |